
Cronfa Gyfunol Cymru
Cyfrif Derbyniadau a Thaliadau

1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023

RHAGAIR

Y cefndir

1. Sefydlwyd Cronfa Gyfunol Cymru (y Gronfa) ar 1 Ebrill 2007 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (y Ddeddf). Mae'r Gronfa'n dal y cronfeydd am y canlynol:
 - Llywodraeth Cymru;
 - Comisiwn y Senedd;
 - Y Comisiwn Etholiadol (gweler paragraff 3 isod);
 - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW); a
 - Swyddfa Archwilio Cymru (WAO).
2. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (AGW) yn awdurdodi ceisiadau am daliadau allan o'r Gronfa ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â Chynnig Cyllidebol a gymeradwywyd. Y cyfanswm a awdurdodwyd gan y Cynnig Cyllidebol i'w dynnu i lawr o'r Gronfa ar gyfer 2022-23 oedd £22,535,877,000 (2021-22: £22,878,455,000).
3. O 1 Ebrill 2021, mae gwariant y Comisiwn Etholiadol y gellir ei briodoli i arfer swyddogaethau'r Comisiwn mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yng Nghymru a refferenda datganoledig yng Nghymru (i'r graddau na ellir ei dalu o incwm sy'n dod i law'r Comisiwn) i'w dalu allan o'r Gronfa yn unol ag adran 28 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, a gyflwynodd adran 16A i Atodlen 1 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.
4. O dan adran 129 (4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 nid yw'r Comisiwn Etholiadol wedi'i restru fel corff taledig o'r Gronfa, ac felly ni all y Comisiwn Etholiadol dynnu'r symiau sy'n ddyledus o'r Gronfa yn uniongyrchol. Rhaid i un o'r cyrff a restrir yn is-adran 129(4) fod yn gyfrifol yn weinyddol am dalu'r Comisiwn Etholiadol o'r cronfeydd y mae'n eu tynnu. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ymgymryd â'r swyddogaeth weinyddol hon, sydd wedi'i nodi mewn cytundeb swyddog cyfrifyddu rhwng Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru a Phrif Weithredwr y Comisiwn Etholiadol.

Cwmpas y Cyfrif

5. Mae'r Cyfrif hwn wedi'i baratoi o dan Adran 132(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cyfrif yn dangos taliadau i mewn i'r Gronfa ac allan ohoni ac yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys ei Fawrhydi, o dan y Ddeddf honno.
6. Mae'r Gronfa'n cael symiau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Swyddfa Cymru) sydd wedi'u pleidleisio gan Senedd y DU. Mae derbyniadau a dderbynnir gan y cyrff uchod nad awdurdodir eu defnyddio i gefnogi eu gwariant hefyd, yn rhinwedd Adran 120(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn daladwy i'r Gronfa.
7. O dan bwerau datganoledig o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014 a 2017), rhoddwyd awdurdod i Senedd Cymru (y Senedd) bennu Cyfradd Treth Incwm Cymru (CTIC) o 2019-20 ymlaen. Mae treth incwm yn parhau i gael ei gweinyddu gan Gyllid a Thollau EF, ond dyrennir refeniw treth incwm o gyfraddau Cymru i Lywodraeth Cymru.

8. Tynnir Trawsdaliad CTIC i lawr o Lywodraeth y DU drwy Swyddfa Cymru ac fe'i telir i Gronfa Gyfunol Cymru, fel y dangosir yng Nghyfrifon Blynyddol 22-23 Ysgrifennydd Gwladol Cymru y gellir eu gweld yn [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23 \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk).
9. O dan bwerau datganoledig o Ddeddf Cymru 2014, mae trethi datganoledig mewn perthynas â'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi'u rheoli yng Nghymru o 2018-19 ymlaen. Sefydlwyd Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) gan Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 i weinyddu a gweithredu'r ddwy dreth. Mae'r trethi a gesglir gan ACC yn cael eu talu i mewn i'r Gronfa o dan Adran 25 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.
10. Mae cyfrif y Datganiad am Drethi Datganoledig yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi ar wahân a gellir ei weld yn [Awdurdod Cyllid Cymru: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022 hyd 2023 \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#).
11. Mae adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014 a 2017) yn rhoi pwerau benthyca uwch i Weinidogion Cymru, gydag unrhyw symiau sy'n cael eu benthyca a'u had-dalu (gan gynnwys llog) i'w talu i mewn i'r Gronfa ac allan ohoni yn eu trefn). Yn 2022-23 cafodd swm pellach o £150 miliwn ei fenthyca. Roedd y symiau cyntaf a gafodd eu benthyca yn 2018-19. Nid oedd unrhyw fenthyca newydd yn 2021-22.
12. Gwneir taliadau allan o'r Gronfa os ydynt wedi'u codi ar y Gronfa trwy unrhyw ddeddfiad, neu os ydynt wedi'u hawdurdodi gan Gynnig Cyllidebol a basiwyd yn y Senedd. Caniateir pasio Cynigion Cyllidebol mewn perthynas â phersonau perthnasol, sef y rhai a grybwyllir ym mharagraff 1 uchod. Rhaid cael cymeradwyaeth i dynnu cronfeydd gan AGW yn unol ag Adrannau 124 a 129 o'r Ddeddf.
13. Mae'r cyrff hynny sy'n tynnu cyllid i lawr o'r Gronfa'n darparu cyfrifon blynyddol yn adrodd ar eu stiwardiaeth ar y cronfeydd hynny.

Derbyniadau a Thaliadau Cronfa Gyfunol Cymru

14. Dengys y cyfrifon hyn y trafodiadau sy'n ymwneud â'r dibenion statudol a nodir uchod. Roedd gan y Gronfa falans wedi'i ddwyn ymlaen o £3,905,000 ar 31 Mawrth 2022, gyda chyfanswm derbyniadau o £22,527,781,000 yn cael eu talu i mewn a thaliadau o £22,523,587,000 yn cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn, gan adael y Gronfa gyda balans cau ar 31 Mawrth 2023 o £8,099,000. Yn ystod 2021-22 roedd y derbyniadau a dalwyd i mewn i'r Gronfa yn gyfanswm o £21,932,553,000 gyda thaliadau o'r Gronfa o £21,944,069,000.

Archwilio

15. Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu (PAO), rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr y Gronfa'n gwybod am yr wybodaeth honno. Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Gronfa'n ymwybodol ohoni.
16. Mae'r Cyfrif yn cael ei archwilio gan AGW yn unol ag adran 132 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R PRIF SWYDDOG CYFRIFYDDU

1. Mae Adran 132(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cyfrif o'r taliadau i mewn i'r Gronfa ac allan ohoni. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail arian parod a rhaid iddynt gyflwyno trafodiadau'r Gronfa yn briodol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023. Mae adran 132(5) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru osod copi ardystiedig o'r cyfrif gerbron Senedd Cymru.
2. Nodir cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu (PAO), gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r PAO yn atebol amdanynt, a thros gadw cofnodion priodol, ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru, a gyhoeddir gan Drysorlys Ei Fawrhydi.

Dr Andrew Goodall CBE
Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
02 Chwefror 2024

DATGANIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL

Cwmpas y Cyfrifoldeb

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod safon uchel o uniondeb yn y ffordd y rheolir arian cyhoeddus. Rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ategu'r gwaith o reoli Cronfa Gyfunol Cymru (y Gronfa) gan ddiogelu ar yr un pryd y cronfeydd cyhoeddus a'r asedau yr wyf yn gyfrifol yn bersonol amdanynt ac sy'n cynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli risg.

Bwriedir i'r system rheolaeth fewnol reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethiant er mwyn cyflawni polisiau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall ei ddarparu yn hytrach na sicrwydd absoliwt. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i: nodi a blaenoriaethu'r risgiau i weithrediad effeithiol y Gronfa; gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith os cânt eu gwireddu; a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Bu'r system rheolaeth fewnol ar waith am y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2023 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys EF.

Y Fframwaith Risg a Rheolaeth

Mae gweithrediad y Gronfa'n cael ei lywodraethu gan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Deddf Cymru 2014 a 2017, a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 sy'n nodi'r amodau ar gyfer taliadau i'w gwneud allan o'r Gronfa a symiau i'w talu i mewn i'r Gronfa.

Rhaid i gymeradwyaethau i dynnu ar y Gronfa gael eu cymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (AGW). Mae'r Gweinidogion yn atebol am y Gronfa, ac mae ceisiadau am dynnu arian allan yn cael eu gwneud ar ran Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Comisiwn y Senedd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, o dan awdurdod cynigion cyllidebol sy'n cael eu pasio gan y Senedd neu o dan ddeddfiad sy'n codi gwariant ar y Gronfa yn uniongyrchol. Llywodraeth Cymru sy'n gweinyddu'r gronfa, felly, mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru hefyd yn gyfrifol am gynhyrchu a llofnodi cyfrifon y Gronfa.

O 1 Ebrill 2021 trosglwyddodd cyllid y Comisiwn Etholiadol a'i atebolrwydd am waith mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yng Nghymru a refferenda datganoledig yng Nghymru o Bwyllgor y Llefarydd, Tŷ'r Cyffredin a Chronfa Gyfunol y DU i Bwyllgor y Llywydd, y Senedd a Chronfa Gyfunol Cymru (y Gronfa), yn unol â Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 sy'n diwygio Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda (PPERA) 2000 yn unol â hynny.

Mae adran 129 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi'r gyfraith mewn perthynas â thynnu taliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru. Nid yw is-adran 129(4) yn cynnwys y Comisiwn Etholiadol fel corff taledig. Felly, rhaid i un o'r cyrff a restrir yn is-adran 129(4) fod yn gyfrifol yn weinyddol am dalu'r Comisiwn Etholiadol o'r cronfeydd y mae'n eu tynnu o'r Gronfa. O dan Gytundeb Swyddog Cyfrifyddu rhwng PAO Llywodraeth Cymru a Phrif Weithredwr y Comisiwn Etholiadol, cytunodd Gweinidogion Cymru i ymgymryd â'r swyddogaeth weinyddol hon.

Mae'r symiau sydd i'w talu o'r Gronfa i'r Comisiwn Etholiadol yn cael eu cynnwys fel Cwmpas ar wahân yn adrannau Llywodraeth Cymru o Gynnig y Gyllideb i adlewyrchu'r trefniant hwn. Mae cronfeydd sy'n cael eu tynnu i lawr a'u dosbarthu i'r Comisiwn Etholiadol fel hyn yn cael eu gwahanu'n glir o fewn systemau cyfrifyddu Llywodraeth Cymru fel rhai sy'n ymwneud â'r Comisiwn Etholiadol yn unig. Bydd y trefniant lle y mae Llywodraeth Cymru yn tynnu cronfeydd ac yn eu dosbarthu i'r Comisiwn Etholiadol yn parhau nes y bydd deddfwriaeth ar waith i'r Comisiwn Etholiadol dynnu cronfeydd o Gronfa Gyfunol Cymru.

Dim ond gyda chymeradwyaeth AGW (o dan adrannau 124 a 129) y gall Llywodraeth Cymru dynnu cronfeydd a rhaid i AGW gymeradwyo cais i dynnu os yw'r cais yn ymwneud â swm dilys a godir ar y Gronfa gan unrhyw ddeddfiad (tâl uniongyrchol) neu os yw'r swm y gofynnir amdano wedi'i awdurdodi neu os bernir ei fod wedi'i awdurdodi gan gynnig cyllidebol y Senedd at ddibenion bodloni gwariant Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Etholiadol (ar gyfer gweithgarwch Cymru), Comisiwn y Senedd, Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Ombwdsmon. Caiff AGW hefyd roi cymeradwyaeth i dynnu mewn perthynas â swm sydd wedi'i dalu i mewn i'r Gronfa trwy gamgymeriad.

Cyn y gellir rhyddhau unrhyw arian o'r Gronfa, rhaid i'r Gweinidogion ofyn am gymeradwyaeth i dynnu, a rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru roi'r gymeradwyaeth honno. Mae adran 129 yn caniatáu i'r Gweinidogion ac i AGW gytuno ar ffurf ceisiadau o'r fath. Wrth ganiatáu cymeradwyaeth o'r fath i dynnu, nid yw AGW ond yn cadarnhau a yw'r awdurdod statudol yn bodoli i wneud taliadau o'r fath. Nid yw'r gwiriad yn gyfystyr â rhagarchwiliad o'r swm y gofynnir amdano.

Mae gweithrediad y Gronfa'n dibynnu ar systemau craidd rheolaeth ariannol Llywodraeth Cymru i gyflawni ei swyddogaethau cyfrifyddu a thalu ar ran Gweinidogion Cymru, a thrwy hynny, ar y rheolaethau sydd ar waith o amgylch y systemau hynny. Er mwyn adolygu'r amgylchedd rheoli mae'n ofynnol i'r holl Gyfarwyddwyr yn Llywodraeth Cymru gwblhau holiadur blynyddol am reolaeth fewnol.

Mae'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol hefyd yn rhoi Datganiad o Sicrwydd yn flynyddol i roi eu hasesiad imi o effeithiolrwydd fframweithiau rheolaeth fewnol eu Grwpiau. Rwyf wedi cael sicrwydd boddhaol, yn bennaf gan y Cyfarwyddwr Cyllid, mewn perthynas â gweithredu'r systemau a'r gwasanaethau cyllid a chorfforaethol y mae gweithredu'r Gronfa'n dibynnu arnynt.

Nodir dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran rheoli risg yn ei Pholisi Rheoli Risg a dogfennau cyfarwyddyd cysylltiedig. Mae risgiau'n cael eu nodi, eu gwerthuso a'u rheoli ar wahanol lefelau o fewn y sefydliad. Mae Llywodraeth Cymru'n cadw at y "Prif Egwyddorion" ar gyfer rheoli risg yn y Llywodraeth a amlinellir yn The Orange Book gan Drysorlys Ei Fawrhydi; Management of Risk – Principles and Concepts (diweddarwyd fis Mai 2023).

Mae Bwrdd Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am oruchwylio gweithredu polisi a phroses ar gyfer rheoli risg ac am oruchwylio a chraffu ar liniaru'r risgiau allweddol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru a allai fel arall atal neu lesteirio'r sefydliad rhag cyflawni ei hamcanion strategol.

Mae Pwyllgor Gweithredol Llywodraeth Cymru (ExCo) yn gyfrifol am wneud penderfyniadau mewn perthynas â risgiau ar lefel gorfforaethol gan gynnwys asesu, gwerthuso, cynnwys ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol (CRR), perchnogaeth gorfforaethol a lliniaru. Mae ExCo hefyd yn gyfrifol am bennu a chymeradwyo'r fframwaith rheoli risg corfforaethol. Mae Is-bwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol ExCo yn gyfrifol am adolygu unrhyw risgiau sydd i'w huwchgyfeirio i'r CRR. Nid oes unrhyw risgiau o ran rheoli Cronfa Gyfunol Cymru wedi'u huwchgyfeirio i'r CRR.

Adolygwyd y CRR ddwywaith yn ystod y flwyddyn ariannol gan y Bwrdd. Cyfrifoldeb rheoli yw rheoli a lliniaru risg o ddydd i ddydd ac mae pob Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi bod yn gyfrifol am reoli risg. Roedd risgiau grŵp yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan uwch dimau rheoli a chan Bwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg y Grŵp ac fe gawsant eu llywio gan gofrestri risg a gynhelir gan brosiectau a rhaglenni ac asesiadau risg a chofrestri risg ar lefel Adrannol.

O ran y cyrff eraill a gyllidir drwy'r Gronfa, ac ACC am dalu derbyniadau trethu i'r Gronfa, mae'n ofynnol i'w Swyddogion Cyfrifyddu gadw systemau effeithiol o reolaeth fewnol ac i sicrhau bod capasiti i reoli risg mewn ffordd briodol a chymesur o fewn eu sefydliadau.

Llywodraethu Gwybodaeth

Fel PAO, rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol yn bodoli i gydymffurfio â'r set graidd o fesurau gofynnol gorfodol i amddiffyn gwybodaeth yn Adrannau'r Llywodraeth sy'n ei gwneud yn ofynnol imi asesu ein risg a sicrhau bod strategaethau lliniaru priodol yn bodoli. Mae gan Lywodraeth Cymru bolisiau a gweithdrefnau ar waith i reoli risg seiberddiogelwch yn rhagweithiol, gan weithio gyda'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol i ddiogelu asedau digidol a seilwaith TGCh.

Rwyf yn derbyn sicrwydd gan Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru sydd wedi gweld lefelau da o ymwybyddiaeth o egwyddorion a gofynion diogelu data cyffredinol GDPR y DU.

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau data yn gofyn am adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth mewn perthynas â stiwardiaeth Llywodraeth Cymru o Gronfa Gyfunol Cymru yn 2022-23.

Cyfradd Treth Incwm Cymru (CTIC)

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014 a 2017) yn rhoi'r pŵer i'r Senedd bennu Cyfradd Treth Incwm Cymru (CTIC). Mae hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru effeithio ar swm y dreth incwm y mae trethdalwyr Cymru yn ei thalu ac, o ganlyniad, y swm y gall Llywodraeth Cymru ei wario yng Nghymru. Cyfrifir CTIC ar sail blwyddyn dreth ac fe'i cyflwynwyd o 6 Ebrill 2019. Bryd hynny, gostyngwyd cyfradd treth incwm y DU i drethdalwyr sy'n byw yng Nghymru 10 ceiniog yn y bunt ym mhob band, gan ganiatáu lle i Lywodraeth Cymru bennu ei chyfraddau ei hun.

Mae cyfraddau Cymru ar gyfer pob blwyddyn ers i'r dreth gael ei datganoli (2019-20) wedi'u pennu yn 10 ceiniog yn y bunt ar gyfer pob un o'r bandiau treth. Mae hyn yn golygu bod trethdalwyr o Gymru wedi talu'r un swm o gyfanswm treth incwm â rhywun o Loegr a Gogledd Iwerddon sy'n ennill yr un swm o incwm, ond yn achos trethdalwyr Cymru roedd 10 ceiniog yn y bunt am bob band treth yn ddyledus i Lywodraeth Cymru gyda'r gweddill yn ddyledus i Gronfa Gyfunol y DU.

Mae'r Fframwaith Cyllidol¹ yn nodi sut mae CTIC yn gweithio yn seiliedig ar amcangyfrifon y cytunwyd arnynt ar gyfer y flwyddyn a chysoniad 15 mis ar ôl diwedd y flwyddyn i symiau gwirioneddol a gasglwyd, a sut mae'n rhyngweithio â setliad y Grant Bloc.

CTHEF sy'n gyfrifol am gasglu Treth Incwm yng Nghymru a'i thalu i Gronfa Gyfunol y DU. Mae Grant Bloc Cymru wedi'i addasu ar gyfer CTIC yn seiliedig ar ragolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer yr hydref drwy'r broses Prif Amcangyfrifon.

¹ [Microsoft Word - Cytundeb Fframwaith Cyllidol.docx \(llyw.cymru\)](#)

Cyhoeddir alldro 15 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol ac fe'i defnyddir i bennu cymod i'r cyfrif am gamgymeriad a ragwelir. Mae'r addasiad hwn yn cael ei gymhwyso i'r grant bloc yn y flwyddyn ariannol ddilynol. Mae 'trawsdaliad' amcangyfrif CTIC yn cael ei wneud trwy Swyddfa Cymru. Mae'r trawsdaliad yn digwydd ochr yn ochr â'r broses grant bloc arferol ac yn cael ei dderbyn i Gronfa Gyfunol Cymru.

Er mwyn sicrhau eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau, mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth² ar waith rhwng Llywodraeth Cymru a CThEF ar gyfer sefydlu a gweithredu'r CTIC. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth³ yn bodoli hefyd sy'n nodi egwyddorion y trefniadau rhwng CThEF a Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol CTIC, sy'n atebol i Brif Swyddog Cyfrifyddu CThEF.

Mae CThEF yn darparu diweddariadau rhagolygon misol ac adroddiadau ariannol yn ymwneud â CTIC, ac mae trafodaethau ar lefel swyddogol i fonitro a herio'r costau. Mae codi tâl gan CThEF am CTIC hefyd yn cael ei fonitro gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) fel rhan o'i harchwiliad blynyddol.

Ochr yn ochr â hyn, mae strwythur llywodraethiant prosiect ffurfiol ar waith i reoli'r broses weinyddu. Mae gan fwrdd prosiect CTIC gynrychiolwyr o Drysorlys Cymru, Trysorlys EF a swyddogion CThEF gan gynnwys cynrychiolwyr o dîm y prosiect, TG, trethi datganoledig a pholisi treth. Mae bwrdd CTIC yn cyfarfod bob chwarter ac yn cael ei gyd-gadeirio gan Lywodraeth Cymru a CThEF.

Mae Trawsdaliad CTIC o Swyddfa Cymru'n cael ei gysoni i gyfrifon statudol Swyddfa Cymru gan roi sicrwydd i mi ynghylch cyflawnder, cywirdeb, dilysrwydd a phrydlondeb trawsdaliad CTIC i Gronfa Gyfunol Cymru.

Sicrwydd

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth gan gynnwys y system rheolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r Gronfa.

Mewn perthynas â Llywodraeth Cymru, rwyf yn cymryd sicrwydd gan ystod eang o ddarparwyr sicrwydd, sy'n gyfrifol am weithredu rheolaethau allweddol. Rwyf yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn bennaf drwy waith Archwilio Mewnol a'r swyddogion hynny yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol. Rwyf hefyd yn derbyn sicrwydd gan ymatebion rheoli ar faterion a nodwyd gan yr Archwilydd Allanol (Archwilydd Cyffredinol Cymru) yn ei adroddiadau amrywiol ar weithrediadau a gweithgareddau Llywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi cynghori ar effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol.

Mae gan Lywodraeth Cymru Wasanaeth Archwilio Mewnol (IAS) sy'n gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Cynhaliodd raglen lawn o waith yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r prif risgiau sy'n wynebu'r sefydliad. Yn ei Hadroddiad Barn am Sicrwydd Blynyddol, rhoes Pennaeth Archwilio Mewnol sicrwydd "rhesymol" ar weithrediad y fframwaith llywodraethiant, rheolaeth a rheoli risg yn Llywodraeth Cymru.

² [Cytundeb lefel gwasanaeth gyda CThEF | LLYW.CYMRU](#)

³ [Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Cyfradd Treth Incwm Cymru LLYW.CYMRU](#)

Er bod trefniadau'n cael eu cynllunio a'u cymhwyso'n effeithiol, mae sicrwydd rhesymol yn golygu bod ar rai materion angen sylw rheolwyr o ran rheolaeth neu gydymffurfio, ac maent yn agored i risg cymedrol nes cael eu datrys.

Cafodd barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ei llywio gan yr aseiniadau archwilio a berfformiwyd yn ystod y flwyddyn, y rhoddir barn sicrwydd ar eu cyfer, a chan adolygiadau cynghori, na ddarperir casgliad sicrwydd archwilio traddodiadol ar eu cyfer. Cyhoeddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol saith adroddiad sicrwydd cyfyngedig yn ystod y flwyddyn ac un adroddiad â barn 'dim sicrwydd' yn ymwneud â chydymffurfiaid Llywodraeth Cymru â fframweithiau strategol arferion gorau ar gyfer cyflawni prosiectau, lle na chafwyd sicrwydd digonol. Lle nodwyd gwendidau sylfaenol, fe'u hynyswyd i system neu broses benodol.

Lle nodwyd gwendidau sylweddol, hyd yn oed pan gawsant eu cyfuno, nid oeddent yn berthnasol i'r farn gyffredinol. Ni chodwyd unrhyw fethiant systematig na phryderon penodol gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a effeithiodd ar weinyddu'r Gronfa yn ystod 2022-23.

O ran y cyrff eraill sydd wedi'u cyllido drwy'r Gronfa, ac ACC am dalu derbyniadau trethi i'r Gronfa, mae'n ofynnol i'w Swyddogion Cyfrifyddu gynnal eu hadolygiad eu hunain o effeithiolrwydd rheolaeth o fewn eu sefydliadau eu hunain, gyda chymorth y mathau o sicrwydd sydd ar gael iddynt, a gofynnwyd am gadarnhad ysgrifenedig bod ganddynt sicrwydd digonol o ran effeithiolrwydd eu systemau eu hunain o lywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol mewn cyllitiad â materion sy'n effeithio ar weithrediad y Gronfa.

Mae pob Swyddog Cyfrifyddu wedi cadarnhau bod ganddynt sicrwydd digonol mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar weithrediad y Gronfa. Yn ogystal, darparwyd sicrwydd gan bob Swyddog Cyfrifyddu nad oedd parhau i weithio o bell neu weithio hybrid, yn cael effaith andwyol ar y systemau rheolaeth fewnol a weithredir gan yr holl gyrff.

Cadarnhaodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod system rheolaeth fewnol ar waith yn ystod 2022-23 i sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra'r symiau misol y gofynnwyd amdanynt o'r Gronfa a bod y rhain yn cael eu harchwilio gan Archwilio Cymru fel rhan o'u harchwiliad o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ym mis Gorffennaf 2023. Mae AGW wedi cyhoeddi barn ddiamod ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

O ran ACC, mae cytundeb Swyddog Cyfrifyddu yn ei le gyda Phrif Weithredwr ACC yn nodi'r cyfrifoldebau mewn perthynas ag ACC, a'r Datganiad Trethi Datganoledig.

Nodaf o'r sicrwydd a ddarparwyd gan Brif Weithredwr ACC fod y datganiad trethi ar gyfer 2022-23, a osodwyd gan AGW, yn dangos y symiau derbyniadwy o gasglu trethi, cosbau ac incwm arall, unrhyw ddiodyniadau a ganiateir, a symiau a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru yn unol ag adran 25 o'r Ddeddf Rheoli Casglu Trethi. Rhoddodd AGW farn archwilio ddiamod ar y datganiad trethi a chefais sicrwydd bod y system rheolaeth fewnol ar gyfer casglu a thalu derbyniadau Trethi Datganoledig yn effeithiol yn ystod cyfnod cyfrifyddu 2022-23.

Mae'r sicrwydd penodol wedi'i roi gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd mewn perthynas â phrosesau'r gyflogres a weithredir gan Gomisiwn y Senedd a sicrwydd mewn perthynas â chyflawnder, cywirdeb a dilysrwydd y ffigurau yn y cyfrifon fel Taliadau Uniongyrchol yn erbyn y Gronfa. Y system gyflogres yw system ariannol fwyaf sylweddol Comisiwn y Senedd ac mae'n destun archwiliad mewnol bob 3 i 4 blynedd. Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol diweddaraf o gyflogres Comisiwn y Senedd ym mis Hydref 2021. Cofnododd hyn gasgliad 'Sicrwydd Cymedrol'.

Mae gwariant y gyflogres hefyd yn destun profion blynyddol sylweddol gan Archwilio Cymru, fel rhan o'i archwiliad allanol blynyddol o ddatganiadau ariannol y Comisiwn. Nid oes unrhyw faterion wedi'u hamlygu gan Archwilio Cymru ar y gyflogres yn ystod 2022-23 i Brif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn.

Mae rheoleidd-dra trafodion y Comisiwn hefyd wedi'i ystyried fel rhan o'r archwiliad allanol o ddatganiadau ariannol y Comisiwn. Cyhoeddodd AGW farn archwilio ddiamed ar ddatganiadau ariannol y Comisiwn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Gofynnodd Comisiwn y Senedd am sicrwydd penodol gan AGW mewn perthynas â theithio a chynhaliath Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru ac AGW yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Wrth ymateb i'r cais hwn, rhoddodd AGW sicrwydd i Gomisiwn y Senedd nad oes unrhyw hawliadau am deithio a chynhaliath gan Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru ac AGW am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 a ddylai fod wedi'u codi ar y Gronfa.

Cadarnhaodd y Comisiwn Etholiadol fod system gadarn o reolaeth fewnol ar waith yn ystod 2022-23 i sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra gweithgareddau a ariennir yn benodol o'r Gronfa a gefnogir gan farn archwilio mewnol 'sylweddol' y Comisiwn. Er mwyn sicrhau bod symiau a godir ar y Gronfa yn cyd-fynd â'r egwyddorion cyllido a'r gyllideb awdurdodedig, mae gan y Comisiwn Etholiadol reolaethau cyfrifyddu penodol ar waith megis strwythurau codio priodol a phrosesau rheolaethau penodol mewn perthynas â'r trefniadau trosglwyddo arian parod. Cafodd adroddiad blynyddol a chyfrifon y Comisiwn Etholiadol 2022-23 eu harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ym mis Medi 2023 a chyhoeddodd y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol farn ddiamed am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Mae Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru wedi rhoi sicrwydd bod system gadarn o reolaeth fewnol yn gweithredu yn ystod y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 mewn perthynas â thynnu ac ildio i'r Gronfa. Mae archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyhoeddi barn ddiamed ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi rhoi sicrwydd hefyd fod prosesau rheolaeth fewnol Archwilio Cymru yn gweithredu dros gymeradwyo ceisiadau Gweinidogion Cymru i dynnu o'r Gronfa.

Mae CThEF yn defnyddio'r un systemau i weinyddu treth incwm p'un ai a yw'n dod i law oddi wrth drethdalwr yng Nghymru neu weddill y DU. Yn ogystal, mae CThEF hefyd yn gweithredu rheolau a gweithdrefnau ychwanegol i Gymru.

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (C&AG) lunio adroddiad sy'n cynnwys rheolaethau allweddol a weithredir gan CThEF i asesu a chasglu treth incwm. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn 'CThEF: Gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru 2022-23' ar 19 Ionawr 2024 ac fe nododd fod CThEF wedi llunio rheoliadau a gweithdrefnau digonol i sicrhau gwiriad effeithiol ar asesu, casglu a dyrannu refeniw yn briodol, a'u bod yn cael eu cyflawni. Nid oes unrhyw faterion sy'n peri pryder ynghylch casglu CTIC gan CThEF yn y flwyddyn 2022-23 wedi'u hadrodd trwy drefniadau'r Bwrdd.

Materion Rheolaeth Fewnol

Mae'r sicrwydd cadarnhaol a ddaeth i law yn rhoi hyder bod fframweithiau llywodraethiant cadarn sydd wedi'u dylunio'n dda, yn gyffredinol, ar gyfer llywodraethiant a rheolaeth fewnol y Gronfa.

Casgliad

Yn seiliedig ar fy adolygiad o reolaethau mewnol o fewn Llywodraeth Cymru a'r sicrwydd sydd ar gael gan y cyrff eraill a ariennir gan y Gronfa, gallaf gymryd sicrwydd rhesymol bod trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol ar gyfer y Gronfa wedi'u cynllunio'n briodol a'u cymhwyso'n effeithiol a bod camau rheoli'n cael eu cymryd, lle mae materion rheoli wedi codi.

Mae'r materion llywodraethiant a rheolaeth hyn yn cydymffurfio â'r cyfrifoldebau sydd wedi'u neilltuo i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru Trysorlys Ei Fawrhydi.

Dr Andrew Goodall CBE
Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
02 Chwefror 2024

Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cronfa Gyfunol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r rhain yn cynnwys y Cyfrif Derbyniadau a Thaliadau a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn ar sail arian parod o dan Adran 132 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- cyflwyno balansau, derbynebau a thaliadau Cronfa Gyfunol Cymru yn briodol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023; a
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol ag Adran 132 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau Trysorlys EF a roddwyd o dan hynny.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol:

- roedd y symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol Cymru yn unol â'r awdurdodau a nodir yn Adrannau 124 neu 130 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;
- mae arian y mae'n ofynnol ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru wedi cael ei dalu i'r Gronfa honno; ac
- mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail y barnau

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesebol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn y cyfrif ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn y cyfrif. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu fel arall mae'n ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau materol o'r fath neu gamddatganiadau materol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol

yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf i, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol; a
- mae'r wybodaeth a roddir yn y rhagair ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

Materion yr wyf yn adrodd amdanynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am gynnal cofnodion cyfrifeg digonol, paratoi'r rhagair a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan hynny ac ar gyfer rheolaeth fewnol o'r fath y mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn ei benderfynu yn angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiadau ariannol sydd am ddim. o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifeg hefyd yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn ddeunydd os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ar faterion sy'n ymwneud â:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth neu honedig; ac
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Llywodraeth Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill sy'n effeithio ar weithrediad Cronfa Gyfunol Cymru, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datganiadau ariannol a phrofion i ddogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod; a
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthdroi rheolaeth rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau a nodwyd yn berthnasol a risgiau posibl i dwyll i bob aelod o'r tîm archwilio a pharhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn cael ei effeithio gan yr anhawster cynhenid wrth ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cronfa Gyfunol Cymru, a natur, amseriad a maint y gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan www.frc.org.uk/auditors cyfrifoldebau'r Cyngor Adrodd Ariannol. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwyf hefyd yn gyfrifol am fynegi barn ynghylch a oedd y symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol Cymru yn unol â'r awdurdodau a nodir yn adrannau 124 neu 130 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a bod arian y mae'n ofynnol ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru wedi'i dalu i'r Gronfa honno.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol ymhlith materion eraill, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ar dystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Llywodraeth Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
05 Chwefror 2024

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

CYFRIF DERBYNIADAU A THALIADAU AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 Mawrth 2023

		2022-23	2021-22
<u>Derbyniadau</u>	<u>Nodyn</u>	<u>£000</u>	<u>£000</u>
Derbyniadau oddi wrth Swyddfa Cymru o dan Adran 118(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006	9	17,209,376	17,878,273
Derbyniadau Ardrethi Annomestig	2	100,517	100,212
Benthyca gan Weinidogion Cymru	4	150,000	-
Dosbarthiad CTheF o'r Gronfa Yswiriant Gwladol mewn perthynas â Nawdd Cymdeithasol	5	2,031,780	1,412,088
Cyfradd Treth Incwm Cymru	6	2,477,747	2,064,061
Derbyniadau Trethi Datganoledig	7	422,000	440,500
Derbyniadau Etholiadau'r Senedd	12	-	-
Derbyniadau eraill	8	136,361	37,419
Cyfanswm y Derbyniadau		22,527,781	21,932,553
<u>Taliadau</u>			
Symiau a awdurdodwyd o dan Gynigion Cyllidebol y Senedd a basiwyd	10	22,308,828	21,803,123
Taliadau Uniongyrchol:			
Cyflogau, costau cysylltiedig, a phensiynau	11	764	760
Treuliau swyddogion canlyniadau yn etholiadau'r Senedd	12	10,751	-
Ad-dalu'r Prifswm a Llog y Gronfa'r Benthyciadau Gwladol	3	4,836	4,836
Taliadau Ardrethi Annomestig gan Weinidogion Cymru	2	149,761	97,931
Ildio derbyniadau a ddynodwyd o dan Adran 120(3) o Ddeddf 2006 i Ysgrifennydd Gwladol Cymru.	8	48,647	37,419
Cyfanswm y Taliadau		22,523,587	21,944,069
(Gostyngiad) / cynnydd Net ym malans y Gronfa		4,194	(11,516)
Balans a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill		3,905	15,421
Balans a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth		8,099	3,905

Mae'r nodiadau ar dudalennau 16 i 25 yn rhan o'r cyfrif hwn

Dr Andrew Goodall CBE
Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
02 Chwefror 2024

Nodyn 1

DATGANIAD O BOLISIAU CYFRIFYDDU

Mae'r cyfrifon hyn yn cael eu paratoi ar sail arian parod o dan Adran 132 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn ogystal, mae balansau i Lywodraeth Cymru ac oddi wrthi'n cael eu datgelu yn Nodyn 14 i helpu i baratoi Cyfrifon Llywodraeth Gyfan.

Nodyn 2

ARDRETHI ANNOMESTIG

Mae Gweinidogion Cymru'n cael ardrethi annomestig sy'n cael eu casglu oddi wrth dalwyr ardrethi gan yr Awdurdodau Bilio neu sy'n cael eu talu'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru gan dalwyr ardrethi ar y Rhestr Ardrethi Ganolog. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ailddosbarthu'r cyfraniadau i'r Awdurdodau Derbyn yn gyfrannol i'r boblogaeth oedolion preswyl (18 oed neu drosodd) ym mhob ardal weinyddol (Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol 2022-23 Rhif 1 Adran 2 Pennod 4.1 ac Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol Rhif 1 2022-23 Adran 2 pennod 4.1). Mae'r ardrethi annomestig sy'n dod i law felly'n cael eu cyfuno a'u hailddosbarthu. Mae'r ffordd y mae'r pwll yn gweithredu'n cael ei llywodraethu gan Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a'r rheoliadau a wneir o dan adran 141 o'r Ddeddf honno. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 rhaid i incwm ardrethi annomestig gael ei dalu i mewn i'r Gronfa ac mae unrhyw wariant ardrethi annomestig cysylltiedig yn dâl uniongyrchol ar y Gronfa.

Gyda chymeradwyaeth Trysorlys EF, er mwyn osgoi trosglwyddiadau arian parod diangen rhwng Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau, caniateir i'r awdurdodau lleol wrthbwysu'r NDR y maent yn eu casglu yn erbyn yr arian y mae arnynt ei angen, gan ganiatáu ar gyfer gwahaniaethau o un flwyddyn i'r llall wrth benderfynu ar faint o Grant Cynnal Refeniw i'w ddarparu mewn unrhyw flwyddyn benodedig. Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 cyfanswm gros cyfraniadau NDR annomestig i'r gronfa oedd £1,034,228,734 (2021-22: £1,035,931,217).

Y taliadau a wnaed drwy'r Gronfa o £48,760,706 (2021-22: £97,931,041) yn daliadau i'r awdurdodau a thalwyr ardrethi'r rhestr ganolog o ganlyniad i ailgyfrifiadau terfynol cyfraniadau ar gyfer 2021-22 a'r blynyddoedd blaenorol ar ôl cael hawliadau archwiliedig yr awdurdodau bilio a gostyngiadau yng ngwerthoedd ardrethol talwyr ardrethi'r rhestr ganolog. Tynnwyd £101,000,000 pellach (2021-22: £dim) fel taliadau uniongyrchol o'r Gronfa gan Lywodraeth Cymru, i dalu'r gwahaniaeth yn y Pwll Ardrethi Annomestig rhwng y symiau a gyfunwyd a'r swm a ailddosbarthwyd ar gyfer 2022-23. Bydd derbyniadau NDR o £921,537 mewn perthynas â thalwyr ardrethi rhestr ganolog 2022-23 a £4,650,107 yn sgil ailgyfrifiadau terfynol 2021-22 yn cael eu talu i'r Gronfa yn 2023-24.

Mae derbyniadau i'r Gronfa o £100,516,576 (2021-22: £100,212,013) yn gyfraniadau o dalwyr ardrethi'r rhestr ganolog a derbyniadau ychwanegol o ganlyniad i ailgyfrifiadau terfynol cyfraniadau ar gyfer 2020-21 a'r blynyddoedd blaenorol ar ôl cael hawliadau archwiliedig oddi wrth yr awdurdodau.

Cynhwysir gwybodaeth bellach am NDR yn Adroddiad a Chyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-22 a Chyfrif Ardrethi Annomestig (Cymru) 2022-23.

Nodyn 3

CRONFA'R BENTHYCIADAU GWLADOL

Cynhwysir yn y balansau hyn benthyciadau o'r Gronfa'r Benthyciadau Gwladol a gafodd eu benthycu ymlaen i Swyddfa Cymru yn wreiddiol i Gorfforaeth Datblygu'r Canolbarth. Cafodd y rhain eu trosglwyddo wedyn i Fwrdd Datblygu Cymru Wledig (DBRW) yn yr 1980au; ac i Awdurdod Datblygu Cymru pan ddiddymwyd DBRW yn 1998. Ers i WDA gael ei ddiddymu yn 2006, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ad-dalu'r prifswm a llog. Cafodd taliadau o £1,745,192 eu gwneud gan Lywodraeth Cymru i Swyddfa Cymru yn 2022-23. Gan fod ad-dalu llog a phrifswm i'r Gronfa'r Benthyciadau Gwladol yn daliad uniongyrchol ar y Gronfa, cafodd Llywodraeth Cymru £1,745,192 oddi wrth y Gronfa i ariannu ad-daliadau'r benthyciad (2021-22: £1,745,192).

Cynhwysir hefyd ad-daliadau'r prifswm a'r llog ar gyfer symiau a fenthycwyd o dan Adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Gweler Nodyn 4 am ragor o fanylion). Roedd ad-daliadau llog a phrifswm yn 2022-23 yn dod i £3,090,485 (2021-22: £3,090,485) sy'n daliadau uniongyrchol ar y Gronfa.

Nodyn 4

BENTHYCA GAN WEINIDOGION CYMRU

O dan adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014 a 2017) rhoddwyd pwerau benthycu ychwanegol i Weinidogion Cymru o 1 Ionawr 2017. Rhaid i unrhyw symiau sy'n cael eu benthycu a'u had-dalu o dan y darpariaethau hyn gael eu gwneud drwy'r gronfa a chael eu hadlewyrchu felly yn y cyfrifon hyn. Daeth y symiau cyntaf a gafodd eu benthycu oddi wrth yr NLF i law'r Gronfa yn 2018-19. Cafodd swm pellach o £150 miliwn ei fenthycu yn 2022-23 .

Nodir crynodeb o'r sefyllfa fenthycu fel a ganlyn:

	Prifswm	Llog sydd wedi	Cyfanswm
	£000	cronni	£000
		£000	
Ar 1 Ebrill 2022	59,472	136	59,608
Benthycu Newydd	150,000	-	150,000
Llog yr aed iddo	-	825	825
Ad-daliadau	(2,266)	-	(2,266)

Llog a dalwyd	-	(825)	(825)
Ar 31 Mawrth 2023	207,206	136	207,342

Nodyn 4 parhad.

Mae ad-dalu benthyca wedi'i amserlennu fel a ganlyn:

Ar 31 Mawrth 2023	Prifswm £000	Llog £000	Cyfanswm £000
Llai na blwyddyn	4,213	5,504	9,717
1-5 mlynedd	26,160	23,532	49,692
Mwy na 5 mlynedd	176,833	60,804	237,637
Cyfanswm	207,206	89,840	297,046

Ar 31 Mawrth 2022	Prifswm £000	Llog £000	Cyfanswm £000
Llai na blwyddyn	2,266	825	3,091
1-5 mlynedd	9,386	2,976	12,362
Mwy na 5 mlynedd	47,820	6,255	54,075
Cyfanswm	59,472	10,056	69,528

Nodyn 5

DOSBARTHAD CTHEF O'R GRONFA YSWIRIANT GWLADOL MEWN CYSYLLTIAD Â NAWDD CYMDEITHASOL

O 2017-18, roedd dosbarthiad CTHEF o Yswiriant Gwladol mewn cysylltiad â Nawdd Cymdeithasol yn cael ei dalu i mewn i'r Gronfa. Yn 2022-23 y swm a dalwyd i mewn i'r Gronfa mewn perthynas â hyn oedd £2,031,780,163 (2021-22: £1,412,087,629).

Nodyn 6

CYFRADD TRETH INCWM CYMRU

Diwygiodd Deddf Cymru 2014 a 2017 ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn perthynas â threth incwm. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ddiwygiedig adran 116D yn rhoi'r pŵer i'r Senedd bennu Cyfradd Treth Incwm Cymru (CTIC) ar gyfer trethdalwyr Cymru ar incwm nad yw'n arbedion, incwm di-ddifidend ym mhob band treth o 6 Ebrill 2019. Mae CTIC yn cael ei phennu bob blwyddyn drwy Benderfyniad sy'n cael ei basio gan y Senedd ar sail cynnig a wneir gan Weinidogion Cymru.

Mae CThEF yn parhau i gasglu Treth Incwm yng Nghymru, gan gynnwys CTIC o dan Femorandwm Cydddealltwriaeth gyda Llywodraeth Cymru. Telir y symiau a gesglir i Gronfa Gyfunol y DU. Cytunir ar swm CTIC a delir i Gronfa Gyfunol Cymru yn ystod y flwyddyn â Thrysorlys Ei Fawrhydi ac fe'i cyfrifir ar sail rhagolwg a chysoni fel y nodir yn y Fframwaith Cyllidol y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth y DU yn trosglwyddo CTIC yn seiliedig ar ragolygon a nodir yn y Prif Amcangyfrifon bob blwyddyn. Gwneir hyn drwy Swyddfa Cymru fel Trawsdaliad CTIC. Mae refeniw CTIC felly'n cael ei dynnu i Gronfa Gyfunol Cymru o Swyddfa Cymru ochr yn ochr â'r broses grant bloc arferol. Mae cysoni'r rhagolwg i refeniw CTIC gwirioneddol yn destun addasiadau i'r grant bloc yn y dyfodol.

Y Trawsdaliad CTIC ar gyfer 2022-23 i Gronfa Gyfunol Cymru yw £2,477,747,000 (2021-22: £2,064,061,000).

Nodyn 7

TRETHI DATGANOLEDIG

Datganolodd Deddf Cymru 2014 ystod o bwerau ariannol newydd i'r Senedd mewn perthynas â threthu. O ganlyniad, darparodd Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 ar gyfer sefydlu ACC. Ers Ebrill 2018 mae ACC wedi casglu a rheoli dwy dreth Gymreig ddatganoledig - sef y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi - ar ran Llywodraeth Cymru. Mae adran 25 o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC dalu'r trethi a gesglir i mewn i'r Gronfa.

Yn ystod y flwyddyn 2022-23, talodd ACC £422 miliwn (2021-22): £441 miliwn) i'r Gronfa mewn perthynas â'r ddwy Dreth Ddatganoledig:

	2022-23	2021-22
	£000	£000
Treth Gwarediadau Tirlenwi	44,637	43,690

Y Dreth Trafodiadau Tir	377,363	396,810
Cyfanswm Trethi Datganoledig	422,000	440,500

Nodyn 8

DERBYNIADAU ERAILL

Mae Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Dynodi Derbyniadau) 2007 yn dynodi rhai derbyniadau (derbyniadau dynodedig). O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 rhaid i Weinidogion Cymru dalu i Swyddfa Cymru symiau sy'n gyfartal â swm y derbyniadau dynodedig. Mae Adran 120(6) o'r Ddeddf yn darparu bod symiau y mae ar Weinidogion Cymru eu hangen i wneud taliadau o dan y gorchymyn hwn yn cael eu codi ar y Gronfa.

	Derbyniadau a delir i mewn i'r gronfa 2022-23 £000	Derbyniadau a ildwyd i Swyddfa Cymru 2022-23 £000	Derbyniadau a delir i mewn i'r gronfa 2021-22 £000	Derbyniadau a ildwyd i Swyddfa Cymru 2021-22 £000
Llywodraeth Cymru	136,361	48,647	37,419	37,419
Cyfanswm y Derbyniadau Dynodedig	136,361	48,647	37,419	37,419
CYFANSWM	136,361	48,647	37,419	37,419

Cyfanswm y derbyniadau a dalwyd i mewn i'r Gronfa ar gyfer 2022-23 oedd £136,361k (2021-22: £37,419k). Yn ystod y flwyddyn, cafodd y cyllid dros ben na chafodd ei wario sef £87,714k ar gyfer 2021-22 gan Lywodraeth Cymru ei ad-dalu i'r Gronfa Gyfunol – gweler Nodyn 13. Ildwyd gweddill y derbyniadau gwerth £48,647k i Swyddfa Cymru.

Nodyn 9

DERBYNIADAU O GRONFA HAPDDIGWYDDIADAU'R DU A THALIADAU IDDI

Defnyddir Cronfa Hapddigwyddiadau'r DU i ariannu taliadau ar gyfer gwasanaethau brys cyn i ddarpariaeth Senedd y DU ar gyfer y gwasanaethau hynny ddod ar gael, ac i ddarparu cronfeydd y mae eu hangen dros dro ar adrannau'r llywodraeth ar gyfer balansau gwaith angenrheidiol, neu i fodloni diffygion arian parod dros dro eraill.

Gwnaeth Swyddfa Cymru fel Adran y DU sy'n gyfrifol am drosglwyddo cronfeydd i Gymru i Gronfa Gyfunol Cymru gais llwyddiannus am flaenswm tymor byr o dan y Gronfa Hapddigwyddiadau o

£150 miliwn yn seiliedig ar y rhagolwg o arian parod Llywodraeth Cymru a oedd yn ofynnol oddi wrth Gronfa Gyfunol Cymru ym mis Mawrth 2023. Talwyd y £150 miliwn i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru ar 16 Mawrth 2023.

Mae'r swm hwn yn adlewyrchu'r arian parod dros ben sy'n ofynnol gan Swyddfa Cymru dros weddill y gofyniad arian parod Pleidlais ar Gyfrif y DU a'r Prif Amcangyfrif (y terfyn ariannu arian parod sydd

ar gael) i'w dalu i Gronfa Gyfunol Cymru. Roedd angen blaensymiau oherwydd amseriad Amcangyfrif Atodol y DU tua diwedd mis Mawrth, pan ddyrannwyd terfynau cyllid arian parod diwygiedig i Swyddfa Cymru.

Trosglwyddwyd arian parod a dynnwyd o Gronfa Hapddigwyddiadau'r DU gan Swyddfa Cymru i Gronfa Gyfunol Cymru, ac fe'i tynnwyd yn erbyn y rhagolwg o'r angen am arian parod gan Lywodraeth Cymru yn y modd arferol. Ad-dalodd Swyddfa Cymru'r £150 miliwn i'r Gronfa Wrth Gefn ar 27 Mawrth 2023. Nid oedd unrhyw drafodiadau o dan y Gronfa Hapddigwyddiadau yn 2021-22

Nodyn 10

MATERION A AWDURDODWYD O DAN GYNIGION CYLLIDEBOL

Mae Cynnig y Gyllideb Flynyddol yn cael ei basio o dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Am y cyfnod hwn o'r cyfrif cymeradwyodd y Senedd: Cynnig y Gyllideb Flynyddol 2022-23 (GEN-LD14986) fel y'i diwygiwyd gan Gynnig (Cynigion) y Gyllideb Atodol 2022-23 (GEN-LD15183 (y Gyllideb Atodol Gyntaf) a GEN-LD15672 (yr Ail Gyllideb Atodol).

Talwyd y symiau canlynol allan o'r Gronfa o dan awdurdod Cynigion y Gyllideb.

Gweler hefyd Nodyn 13, sy'n rhoi manylion symiau a dynnwyd i lawr ac sydd heb eu gwario ar 31 Mawrth 2023.

	2022-23	2021-22
	£000	£000
Llywodraeth Cymru	22,237,007*	21,733,949
Comisiwn y Senedd	57,350	56,850
Swyddfa Archwilio Cymru	9,283	7,098
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	5,188	5,226
Cyfanswm	22,308,828	21,803,123

*Yn y symiau a dynnwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru cynhwysir swm o £1,444,280 (2021-22: £1,750,000) a dynnwyd o'r Gronfa i'w drosglwyddo i'r Comisiwn Etholiadol. Fel y nodir ar dudalen 1 ni all y Comisiwn Etholiadol dynnu'n uniongyrchol o'r Gronfa. Mae'r symiau i'w tynnu o'r Gronfa wedi'u cynnwys ond yn cael eu nodi ar wahân o fewn elfen Llywodraeth Cymru o Gynigion y Gyllideb.

Nodyn 11

CYFLOGAU, COSTAU CYSYLLTIEDIG A PHENSIYNAU 2022-23

	Senedd Cymru			Swyddfa Archwilio Cymru		Ombwdsmon	Cyfanswm £000
	Y Llywydd £000	Y Dirprwy Lywydd £000	Y Comisiynydd Safonau* £000	Archwilydd Cyffredinol Cymru £000	Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru** £000	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru £000	
Cyflogau	111.	90	35	150	25	147	558
Cyfraniadau Yswiriant Gwladol	15	12	4	21	2	20	74
Costau Pensiwn	22	18	-	45	-	44	129
Yr Ardoll Brentisiaethau	1	-	-	1	-	1	3
CYFANSWM	149	120	39	217	27	212	764

* Mae'r tâl cydnabyddiaeth ar gyfer y Comisiynydd Safonau yn cynnwys tâl cadw blynyddol ynghyd â chyfradd ddyddiol ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rôl a chyfrifoldebau'r swydd ynghyd â threuliau rhesymol. Mae'r cyflog uchod i'r Comisiynydd Safonau felly yn cynnwys ad-dalu treuliau sy'n dâl uniongyrchol ar y gronfa.

** Mae'r taliadau hyn yn adlewyrchu newid penodiad yn 2022-23. O ran Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, balans y taliadau ar gyfer deliaid y ddwy swydd yn y flwyddyn yw £1,124 a £26,207.

CYFLOGAU, COSTAU CYSYLLTIEDIG A PHENSIYNAU 2021-22

	Senedd Cymru			Swyddfa Archwilio Cymru		Ombwdsmon	Cyfanswm £000
	Y Llywydd £000	Y Dirprwy Lywydd** £000	Y Comisiynydd Safonau* £000	Archwilydd Cyffredinol Cymru £000	Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru £000	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru £000	
Cyflogau	111	87	29	150	25	155	557
Cyfraniadau Yswiriant Gwladol	14	11	3	19	2	20	69
Costau Pensiwn	22	17	0	45	0	47	131

Cronfa Gyfunol Cymru
1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023

Yr Ardoll Brentisiaethau	1	0	0	1	0	1	3
CYFANSWM	148	115	32	215	27	223	760

* Penodwyd y Comisiynydd Safonau o 1 Ebrill 2021 am dymor o 6 blynedd. Mae'r tâl cydnabyddiaeth ar gyfer y Comisiynydd Safonau yn cynnwys tâl cadw blynyddol ynghyd â chyfradd ddyddiol ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rôl a chyfrifoldebau'r swydd ynghyd â threuliau rhesymol. Mae'r cyflog uchod i'r Comisiynydd Safonau felly yn cynnwys ad-dalu treuliau sy'n dâl uniongyrchol ar y gronfa.

** Mae'r taliadau hyn yn adlewyrchu newid penodiad yn 2021-22. O ran y Dirprwy Lywydd, balans y taliadau ar gyfer ddeiliaid y ddwy swydd yn y flwyddyn yw £9,276 a £105,877.

Nodyn 12

TREULIAU SWYDDOGION CANLYNIADAU YN ETHOLIADAU'R SENEDD

Ar 31 Mawrth 2022 nid oedd Llywodraeth Cymru wedi tynnu £10,713,824 eto i dalu am dreuliau'r etholiad (yr oedd £5,503,260 ohonynt yn ymwneud â thaliadau post, fel y nodir yn Nodyn 12 o Gyfrifon 2021-22). Roedd tâl pellach o £36,680 yn 2022-23. Talwyd y cyfanswm o £10,750,504 o'r Gronfa i Lywodraeth Cymru ar gyfer y costau hyn yn 2022-23.

Nodyn 13

SYMIAU A DYNNEWYD A HEB EU GWARIO A SWM DROS BEN INCWM DROS SYMIAU A AWDURDODWYD

Isod nodir y symiau a dynnwyd i lawr ac a dderbyniwyd gan gyrff a gynhwysir gan y Gronfa ond heb eu gwario ar 31 Mawrth 2023, a derbyniadau sy'n uwch na'r incwm a awdurdodwyd sy'n ad-daladwy i'r gronfa, isod:

Llywodraeth Cymru

Yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23 Llywodraeth Cymru ar gyfer diwedd y flwyddyn 31 Mawrth 2023 nodwyd y symiau canlynol sy'n ddyledus i'r Gronfa:

Tâl-dros-ben cyllid a dynnwyd ond heb ei wario – £5,989,380
Derbyniadau sy'n uwch na'r incwm a awdurdodwyd – £dim

Roedd y cyllid dros ben a dynnwyd ond a oedd heb ei wario ar gyfer 2021-22 yn £87,714,059 ac roedd y derbyniadau sy'n uwch na'r incwm yn £ddim. Ad-dalwyd y cronfeydd hyn yn ôl i'r gronfa gyfunol yn 2022-23.

Comisiwn y Senedd

Adroddodd Cyfrif Adnoddau Comisiwn y Senedd am y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2023 fod y symiau canlynol yn ddyledus i'r Gronfa:

Tâl-dros-ben cyllid a dynnwyd ond heb ei wario – £226,000
Derbyniadau sy'n uwch na'r incwm a awdurdodwyd – £dim
Llog banc i'w ildio - £2,000

Roedd y cyllid dros ben a dynnwyd ond heb ei wario ar gyfer 2021-22 yn £1,171,000 ac ni chafodd y derbyniadau dros incwm o £ddim eu had-dalu i'r Gronfa ond bernir eu bod wedi'u tynnu yn erbyn grantiau awdurdodedig 2022-23. Ar gyfer 2022-23 oherwydd newidiadau yng nghyfraddau llog y farchnad, cafodd Comisiwn y Senedd log ar gyfrif a ddelir. Yn unol â Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Dynodi Derbynebaw) 2007, mae llog i'w ildio i WCF.

Nodyn 13 parhad

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Adroddodd cyfrif blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru am y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2023 fod y symiau canlynol yn ddyledus i'r Gronfa:

Tâl-dros-ben cyllid a dynnwyd ond heb ei wario – £1,000
Derbyniadau sy'n uwch na'r incwm a awdurdodwyd – £dim

Ar gyfer 2021-22 ni chafodd y cyllid dros ben a dynnwyd ond heb ei wario o £120,000 a'r derbyniadau dros incwm o £ddim, eu had-dalu i'r Gronfa ond bernir eu bod wedi'u tynnu yn erbyn grantiau awdurdodedig 2022-23.

Swyddfa Archwilio Cymru

Adroddodd cyfrif blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru am y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2023 fod y symiau canlynol yn ddyledus i'r Gronfa:

Tâl-dros-ben cyllid a dynnwyd ond heb ei wario – £509,000
Derbyniadau sy'n uwch na'r incwm a awdurdodwyd – £dim

Ar gyfer 2021-22 ni chafodd y cyllid dros ben a dynnwyd ond heb ei wario o £76,000 a'r derbyniadau dros incwm o £ddim, eu had-dalu i'r Gronfa ond bernir eu bod wedi'u tynnu yn erbyn grantiau awdurdodedig 2022-23.

Nodyn 14

BALANS LLYWODRAETH CYMRU

Mae'r cyfrifon ar gyfer y Gronfa hon yn cael eu paratoi ar sail arian parod o dan Adran 132 (1) o'r Ddeddf. Pe bai'r cyfrif WCF hwn yn cael ei baratoi ar sail adnoddau, byddai'r fantolen yn cynnwys dyledwr i Lywodraeth Cymru fel isod, gan adlewyrchu trosglwyddiadau sy'n deillio o weithgarwch 2022-23 a oedd yn dal heb eu gwneud ar 31 Mawrth 2023.

	2022-23	2021-22
	£000	£000
NDR a dalwyd / a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ar ran y Gronfa	4,879	-
Cyllid a dynnwyd ond heb ei wario	5,989	87,714
Treuliau swyddogion canlyniadau heb eu tynnu i lawr	-	(10,905)

Tâl-dros-ben treuliau swyddogion canlyniadau a dynnwyd	-	191
Derbyniadau Dynodedig	8,040	9,908
CYFANSWM	18,908	86,908

Nodyn 15

AWDURDODWYD I'W CYHOEDDI

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu wedi awdurdodi'r datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar yr un diwrnod ag y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n llofnodi'r dystysgrif archwilio.

Atodiad

WELSH CONSOLIDATED FUND

ACCOUNTS DIRECTION GIVEN BY HM TREASURY IN ACCORDANCE WITH SECTIONS 132(2) AND (3) OF THE GOVERNMENT OF WALES ACT 2006

1. The account of payments into and out of the Welsh Consolidated Fund for the financial year ended 31 March 2008 and subsequent financial years shall properly present those payments.

2. When preparing the account of the payments into and out of the Welsh Consolidated Fund for the financial year ended 31 March 2008 and subsequent financial years the Welsh Ministers shall comply with cash (receipts and payments) accounting principles and the account will contain the following:
 - A Foreword (explaining the background and scope of the account);
 - A Statement of Accounting Officer's Responsibilities;
 - A Statement on Internal Control;
 - A Receipts and Payments Account; and
 - Such notes as are required to ensure a proper understanding of the account, including an explanation of the movement on financial year-end balances.

3. This direction shall be reproduced as an appendix to the statement of account.



DAVID WATKINS
Head of the Financial Reporting Policy Team, HM Treasury

04 January 2007